# Astudiaeth Achos: datblygu gwaith partneriaethau a chefnogi trawsnewidiadau plant

**Perchnogion a rheolwyr meithrinfa Little Stars (“y Feithrinfa”) yw Emma Matthews a Marie Ellis-Jones, y ddwy yn athrawon blynyddoedd cynnar . Mae wedi bod ar agor ers dros 20mlynedd, ac wedi ei leoli yn Mamhilad, Pontypŵl. Mae’r feithrinfa yn darparu gofal o ansawdd ichel i blant rhwng 0-4 oed ac wedi ei gofrestru ar gyfer 65 o blant pob dydd, gyda 30 yn mynychu’r adran cyn-ysgol pob dydd. Mae’r feithrinfa yn derbyn arian addysg feithrin ar gyfer plant 3- a 4-mlwydd oed ac yn darparu’r Cynnig Gofal Plant.**

**Mae’r feithrinfa wedi ei chydnabod gan Estyn drwy adroddiadu archwiliadau, drwy rannu digwyddiadau ac adnoddau ymarfer effeithiol, am eu rhagoriaeth mewn addysg a hyfforddi. Mae Emma a Marie yn gweithio’n agos gyda Estyn a’r consortiwm Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) (y gwasanaeth gwella addysg ar gyfer pump awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru: Blaenau Gwent, Caerffili, Mynwy, Casnewydd, a Torfaen) i gefnogi arweinwyr ac ymarferwyr lleoliadau eraill.**

**Oherwydd eu gwybodaeth a phrofiad eang mewn addysg feithrin a gofal plant, gwahoddwyd Emma a Marie i gymryd rhan mewn grwpiau oedd yn cyd-cynhyrchu canllaw Cwricwlwm i Gymru gyda Llywodraeth Cymru. Mae’r ddwy ohonynt wedi cymryd rhan mewn grwpiau gorchwyl oedd yn cyd-gynhyrchu** Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir a’r Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir **settings.**

## Rhoi’r newidiadau mewn ymarfer ar waith – lle mae dechrau?

Yn ystod ein siwrnai i roi Cwricwlwm i Gymru ar waith, fe wnaethom adlewyrchu ar sut gallai’r pedwar diben edrych i blant 3 a 4 oed. Fe wnaethom benderfynu bod archwilio addysgeg plentyn-ganolog yn allweddol i’n cefnogi i wireddu uchelgais Cwricwlwm i Gymru. Buom yn myfyrio ar ein hamgylcheddau a’r profiadau dysgu yr oeddem yn eu cynnig i blant ac yn ystyried sut roedd y rhain yn adlewyrchu addysgeg plentyn-ganolog a sut y gellid datblygu hyn ymhellach. Ffocws arall i ni oedd sicrhau ein bod yn creu mwy o gyfleoedd i blant gael profiadau perthnasol a real, a oedd yn ymarferol ac yn ystyrlon.

Aethom ati i gysylltu gyda’r ysgolion lleol y byddai ein plant yn eu mynychu a gwahodd staff i ymweld â’r Feithrinfa, ein staff ac wrth gwrs – y plant. Daeth Pennaeth Ysgol Gynradd Goetre Fawr, Mike Gough, a’r athro Derbyn i’r lleoliad i drafod gyda staff, gweld yr amgylcheddau sydd ar gael i blant ac arsylwi ar y plant yn yr amgylcheddau a chymryd rhan yn y profiadau a gynigir. Rhannodd

**National Day Nurseries Association Cymru**
3 Connaught House, Riverside Business Park, Benarth Road, Conwy, LL32 8UB
Email: wales@ndna.org.uk Tel: 01824 707823 www.ndna.org.uk/ndna-cymru/

staff yr ysgol eu harsylwadau o'r lefelau cynyddol o annibyniaeth yr oedd y plant yn eu datblygu a pha mor uchelgeisiol a galluog oeddent.

Er mwyn adeiladu ar ddysgu a datblygiad plant, roeddem gyda'n gilydd yn teimlo angen i weithio'n agos gyda'n gilydd (Y Feithrinfa a'r ysgol) i ddeall sut mae amgylcheddau effeithiol yn edrych a sicrhau bod plant yn gallu profi trawsnewidiadau llyfn ac adeiladu ar y sgiliau a'r cysyniadau a ddatblygwyd wrth symud i'r Dosbarth Derbyn. Teimlwn fod ein partneriaeth ag Ysgol Gynradd Goetre Fawr yn rhan allweddol o'n llwyddiant wrth bontio ac wedi ei seilio ar barch a phroffesiynoldeb.

## Oedd unrhyw heriau bu'n rhaid i chi wynebu wrth ddatblygu perthynas a phartneriaethau gwaith?

Amser yw'r agwedd fwyaf heriol o roi trefniadau newydd ar waith, neu gyflwyno newidiadau, yn arbennig oherwydd bod y ddau leoliad â threfniadau a llywodraethiant gwahanol. Rydym yn credu bod buddion i weithio mewn partneriaeth ac y bydd yn cael effaith cadarnhaol ar gyfnod pontio'r plant. Gwnaeth hyn ein hysbrydoli ni i flaenoriaethu amser i staff gael amser cyswllt gyda'r ysgol er mwyn hybu trafodaethau gwerthfawr a dysgu proffesiynol ar y cyd. Gwnaethom weithio'n galed i ystyried sut oedd yn bosibl creu amser ar gyfer hyn o fewn amserlen brysur y Feithrinfa. Roeddem am i'r gweithio mewn partneriaeth nid yn unig i gymryd lle ond i ffynnu ac felly roedd canfod amser yn rhan annatod o hynny.

## Beth yw'r llwyddiannau sydd wedi bod o ganlyniad i'r newidiadau?

Mae Mike Gough, Pennaeth Ysgol Gynradd Goytre Fawr yn rhannu ein gweledigaeth ar gyfer addysg feithrin o ansawdd uchel. Rydym yn credu bod hyn yn sylfaenol i blant er mwyn iddynt ddatblygu agwedd bositif tuag at ddysgu, a fydd, o'i feithrin gyda nhw am weddill eu hoes. Roeddem ein dau yn awyddus i gryfhau ein perthynas yn ystod y cyfnod yma o newid, gan sicrhau bod ganddom ddealltwriaeth ar y cyd o'r tri galluogwr ac egwyddorion dilyniant.

Daeth staff o Ddosbarth Derbyn Goytre Fawr a Chymorthyddion dosbarth blynyddoedd cynnar, i ymweld ar Feithrinfa i weld ein darpariaeth. Roeddem yn canolbwyntio ar y tri galluogwr sut roeddent yn gydgysylltiedig a rhyngddibynnol. Yn ogystal fe wnaethom ganolbwyntio ar dueddiadau dysgu, fel annibyniaeth, chwilfrydedd, dyfalbarhad, a chreadigrwydd. Rhoddwyd cyfleoedd i'r plant gymysgu eu paent eu hunain, gwneud eu toes eu hunain a thorri eu ffrwythau eu hunain ac ati. Er mwyn cefnogi dilyniant, roedd staff yr ysgol yn gallu nodi pa brofiadau a gaiff y plant yn y Feithrinfa er mwyn iddynt allu sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael iddynt wrth iddynt symud i'r dosbarth Derbyn. Roedd staff hefyd yn gallu cael gwell dealltwriaeth o sut roedd y diwrnod yn edrych o ran chwarae a dysgu seiliedig ar chwarae, bod yn yr awyr agored a rôl yr oedolyn galluogi.

Mae'r ymweliadau hyn wedi sicrhau trefniadau pontio llyfn ac wedi galluogi staff yr ysgol i roi profiadau tebyg i blant yn ystod eu hymweliadau pontio, gan roi amgylchedd a threfn fwy cyfarwydd iddynt, a fydd yn eu tro yn eu helpu i addasu i'w hamgylchedd ysgol newydd.

Pan gwblhawyd y trefniadau Asesu ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir, dyma oedd y darn olaf i'r pos. Yr eisin ar y gacen! Rydym yn falch iawn o'r cyfle i rannu gwybodaeth asesu ystyrlon gydag ysgolion, sy'n nodi ac yn dathlu datblygiad cyfannol plant, eu cryfderau, y ffyrdd y maent yn dysgu a'u meysydd i'w datblygu. Cafwyd llawer o drafodaethau gyda'r ysgol, wrth i ni ddatblygu ein dull naratif ein hunain o adrodd ar gynnydd plant. Ein nod oedd sicrhau cyd-ddealltwriaeth o sut mae dilyniant yn edrych, gan gymhwyso'r pum egwyddor dilyniant ochr yn ochr â'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir.

Mae'r ddeialog broffesiynol barhaus gyda'r athrawes Dderbyn yn cefnogi ein harfer adfyfyriol ac yn caniatáu inni gael gwell dealltwriaeth o'r cynnydd y mae plant wedi'i wneud yn y lleoliad, a hwyluso profiad pontio llyfn, cadarnhaol i bob plentyn. Gwahoddwyd staff y Feithrinfa hefyd i fynychu diwrnod HMS ysgol i rannu ein taith o wireddu'r cwricwlwm. Cawsom gyflwyniad ar sut yr oeddem yn archwilio addysgeg effeithiol, y deuddeg egwyddor addysgeg a'n diwylliant ar gyfer dysgu. Buom yn dathlu sut y gwnaethom greu gweledigaeth ar y cyd a dod â phawb ar ein 'taith.' Cafwyd adborth hynod gadarnhaol i'r cyflwyniad.

Mae ein gwaith partneriaeth gydag Ysgol Gynradd Goetre Fawr wedi mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd. Mae gennym barch at y wybodaeth sydd gan bob parti am ein plant. Teimlwn fod y pennaeth yn gwerthfawrogi'r addysg o ansawdd yr ydym yn ei chyflwyno, ac mae'r bartneriaeth yn rhan bwysig o lwyddiant darparu trosglwyddiadau esmwyth i blant.

## Beth yw eich cynlluniau i'r dyfodol i adeiladu ar yr ymarfer effeithiol yma?

Byddwn yn parhau i feithrin ein partneriaeth gydag Ysgol Gynradd Goytre Fawr. Nid yw paratoi ar gyfer cefnogi cyfnod pontio plant yn ddigwyddiad unigol, mae'n broses sy'n cymryd lle gydol yr amser. Bwriadwn barhau i rannu dealltwriaeth ar draws ein lleoliad a'r ysgol i gefnogi pontio llyfn a sicrhau parhad datblygiad ar hyd y continwwm dysgu.

Ein trefniadau pontio gydag Ysgol Gynradd Goetre Fawr yw'r meincnod ar gyfer sut y dylai pontio effeithiol edrych yn ein barn ni. Oherwydd lleoliad y Feithrinfa, rydym yn bwydo tua 10 ysgol wahanol, gyda phlant yn derbyn gofal gyda ni oherwydd bod rhieni yn gweithio yn yr ardal ond ddim o reidrwydd yn byw yn ein cymuned. Rydym yn ymdrechu i efelychu'r trefniadau pontio cadarnhaol hyn gydag Ysgol Gynradd Goetre Fawr, gyda'n holl ysgolion sy'n derbyn ac yn parhau i chwilio am ffyrdd o ymgysylltu â'r ysgolion hyn yn rheolaidd.



**National Day Nurseries Association Cymru**
3 Connaught House, Riverside Business Park, Benarth Road, Conwy, LL32 8UB
Email: wales@ndna.org.uk Tel: 01824 707823 www.ndna.org.uk/ndna-cymru/

## Yw’r lleoliad wedi cydweithio gyda lleoliadau/ysgolion eraill i rannu ymarfer da a chefnogaeth? (Rhwydweithiau, astudiaethau achos, cyfarfodydd All/hyfforddiant)

Rydym yn rhannu ymarfer da mewn cyfarfodydd rhwydwaith NDNA, cyfarfodydd rhwydwaith yr awdurdod lleol a chyfleon hyfforddi, ac mewn cyfarfodydd a fforymau lleoliad nas cynhelir Estyn. Fel lleoliad arweiniol ar gyfer yr EAS rydym hefyd yn rhannu ein gwybodaeth a’n profiad gyda arweinwyr a rheolwyr eraill wrth we also share our knowledge and experience with other leaders wrth gyflwyno hyfforddiant arweinyddiaeth – gan gynnwys ‘gair i gall’ – awgrymiadau ar gyfer ymarfer gorau.

## Gair i Gall – awgrymiadau ar gyfer ymarfer gorau:

- Gofynnwch i dîm Blynyddoedd Cynnar eich awdurdod lleol eich helpu i gasglu enwau pobl allweddol yn yr ysgolion y mae eich plant yn trosglwyddo iddynt e.e. Pennaeth, athro dosbarth Derbyn, Cydlynydd ADY. Mae'n fwy personol, a gallwch chi sefydlu perthynas y gellir adeiladu arni. Mae creu cysylltiadau yn allweddol i lwyddiant
- Dechreuwch y broses yn gynnar, fel y gallwch gael y sgyrsiau ystyrlon hynny wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Os oes gan blant anghenion sy'n dod i'r amlwg, gwahoddwch y Cydlynydd ADY neu'r athro dosbarth Derbyn i unrhyw gyfarfodydd pontio dros yr haf. Bydd hyn yn helpu i hwyluso pecyn pontio gwell
- Rhannu’r trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir gyda’r ysgolion a phwysleisio pwysigrwydd cael cyd-ddealltwriaeth o ddilyniant er mwyn sicrhau parhad dilyniant wrth symud i leoliad newydd
- Byddwch yn falch ac yn hyderus ynghylch pa mor dda rydych chi'n adnabod eich plant. Bydd y wybodaeth hon yn bwysig i ysgolion er mwyn cefnogi pob plentyn a'u teuluoedd
- Os ydych wedi bod yn aflwyddiannus wrth gysylltu ag ysgol o'r blaen, ceisiwch eto. Gall newidiadau staff neu newid diwylliant olygu eich bod yn fwy llwyddiannus y tro hwn. Peidiwch â rhoi'r gorau iddi!


**National Day Nurseries Association Cymru**
3 Connaught House, Riverside Business Park, Benarth Road, Conwy, LL32 8UB
Email: wales@ndna.org.uk Tel: 01824 707823 www.ndna.org.uk/ndna-cymru/

*"Mae ein partneriaeth gyda Little Stars wedi bod o fudd arbennig i'n holl staff, disgyblion a'r bobl gartref, a'i sylfaen yw gweledigaeth a rennir ynghylch pwysigrwydd datblygiad cynnar a'r lefelau dwfn o ofal bugeiliol sy'n treiddio i bob lleoliad.*

*Gan nad oes ganddom meithrinfa yn gysylltiedig â'n hysgol, a bod tua 80-85% o'n plant yn dod atom o Sêr Bach bob blwyddyn, mae'n hollbwysig bod gennym berthynas waith effeithiol â'n gilydd. Mae'r ddwy ochr yn rhoi gwerth mawr ar y broses bontio ac mae'n dechrau yn gynnar yn y flwyddyn ysgol. Mae'r llwybrau ffurfiol ac anffurfiol yr ydym yn eu dilyn gyda'n gilydd, ymweliadau safle rheolaidd yr arweinwyr, y staff a'r plant, a'r cyswllt ADY rhagorol sy'n digwydd yn rheolaidd ar draws y flwyddyn, yn golygu pan fydd y plant yn ein cyrraedd, bod gennym ddealltwriaeth ddofn o'u hanghenion datblygiadol a bugeiliol unigol. Mae'r plant a'r teuluoedd yn cyrraedd lleoliad cyfarwydd lle mae'r staff yn gyfarwydd iawn â'r disgyblion a lle gallwn ddiwallu eu hanghenion yn gyflym. Mae rhan fawr o hynny i'w briodoli i'r gwaith a rennir a'r dulliau gweithredu cadarnhaol, arloesol y mae Emma Matthews a staff Little Stars yn eu cyflawni ochr yn ochr â'n staff Ysgol Gynradd Goetre Fawr.*

*Mae'r bartneriaeth a'r gwaith pontio yn hynod fuddiol i'n hysgol ac i'n teuluoedd."*

**Mike Gough, Pennaeth, Ysgol Gynradd Goytre Fawr**

## Cefnogaeth bellach

- **Pecyn cymorth pontio a gweithio mewn partneriaeth:** pecyn cymorth o 10 adnodd gwahanol i gefnogi datblygiad gwaith partneriaeth a thrawsnewid, NDNA Cymru:https://ndna.org.uk/product-category/wales-early-years-factsheets/
- **Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir: modiwlau a gwybodaeth gefnogol**- <https://hwb.gov.wales/repository/resource/d34b921e-3b07-4524-87b5-e461540c5ff7/overview>
- Dysgu proffesiynol: cefnogaeth dysgu sylfaen i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliad (Gan gynnwys **Modiwl Pontio ar lein**) https://hwb.gov.wales/repository/resource/b8781f79-5eb7-4548-a20e-a17b0da88df2/overview